**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**CABINET**

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd Dydd Llun, 12 Rhagfyr 2022 am 1.00 pm.

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion yma

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Cabinet Aelodau oedd yn bresennol**:-:-

Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)

Y Cynghorydd M Webber   Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd A Crimmings   Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon   Y Cynghorydd M Norris

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr P Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Ms L Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned
Mr S Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr. M. Phillips, Rheolwr Gwasanaethau Refeniw
C Emery, Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaeth Cymunedau Diogel a Thai Cymuned
Ms C O'Neill, Rheolwr Celfyddydau a Diwylliant

**90 Croeso ac Ymddiheuriadau**

Croesawodd yr Arweinydd y rheiny oedd yn bresennol i'r cyfarfod a derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd y Cyhoedd a Chymunedau.

**91 Datgan Buddiant**

Ar ran pob Prif Swyddog oedd yn bresennol yn y cyfarfod, datganodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol fuddiant personol ac ariannol mewn perthynas ag eitem 7 ar yr agenda o ganlyniad i'r adroddiad yn cyfeirio at swyddi swyddogion yn y cynnig i ailstrwythuro carfan yr Uwch Arweinwyr.

Gadawodd y Prif Swyddogion canlynol y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar yr eitem:
* Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
* Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
* Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol
* Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned
* Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu

* Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu

Arhosodd y Prif Weithredwr, a ysgrifennodd yr adroddiad a'i gyflwyno (yn rhan o'u cyfrifoldebau statudol) yn y cyfarfod.

**92 Cofnodion**

**PENDERFYNODD** y Cabinet gymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2022 yn rhai cywir.

**93 Rhaglen Waith y Cabinet**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am Raglen Waith y Cabinet, gan gynnwys y rhestr arfaethedig o faterion y mae angen i'r Cabinet eu trafod yn ystod Blwyddyn 2022-23 y Cyngor.

Nododd y Dirprwy Arweinydd fod y Rhaglen Waith yn ddogfen hyblyg a byddai modd ei diwygio gan ddibynnu ar sefyllfa'r gyllideb.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Cymeradwyo'r Rhaglen Waith ddiweddaraf ar gyfer Blwyddyn 2022-23 y Cyngor (gan addasu'n briodol yn ôl yr angen) a chael yr wybodaeth ddiweddaraf bob 3 mis.

**94 Premiymau Treth y Cyngor – Eiddo Gwag Tymor Hir ac Ail Gartrefi**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol ganlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus i'r Cabinet a gytunodd i'w roi ar waith mewn perthynas â chyflwyno premiwm Treth y Cyngor ar eiddo gwag tymor hir ac ail gartrefi yn y Fwrdeistref Sirol.

Siaradodd y Cyfarwyddwr am gyfarfod y Cabinet a gafodd ei gynnal ar 17 Hydref 2022, lle trafododd y Cabinet Strategaeth Cartrefi Gwag newydd ar gyfer 2022-2025, a chytuno arni. Cytunodd y Cabinet hefyd gynnal ymgynghoriad ar y cynnig i gyflwyno Premiwm Treth y Cyngor ar Eiddo Gwag Tymor Hir. Cynigiwyd y byddai'r premiwm ar gyfer eiddo gwag tymor hir yn cael ei gyflwyno a'i roi ar waith o **1 Ebrill 2023**, ac y byddai'r premiwm ar gyfer ail gartrefi yn cael ei roi ar waith o **1 Ebrill 2024** (yn unol â gofynion y Ddeddf). Byddai'r Cyngor yn ysgrifennu at bob perchennog cartref, ar ôl dod i benderfyniad, er mwyn rhoi gwybod am y newidiadau sydd ar y gweill, gan roi cymaint o rybudd ag sy'n bosibl.

Tynnodd y Cyfarwyddwr sylw'r Cabinet at Atodiad 1 yr adroddiad, a oedd yn cynnwys manylion yr ymatebion i'r ymgynghoriad a gafodd ei gynnal rhwng 24 Hydref a 21 Tachwedd 2022.

Nododd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd a Gwasanaethau

Corfforaethol fod gan y Cyngor bwerau dewisol i godi symiau uwch o ran Treth y Cyngor ar gyfer eiddo gwag tymor hir ac ail gartrefi, gan anelu at ddefnyddio eiddo gwag eto, cynyddu nifer y tai fforddiadwy a gwella cynaliadwyedd cymunedau lleol. Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet fod eiddo gwag yn cael effaith niweidiol ar gymunedau ac roedd o blaid cynnig y cynnig gwreiddiol a oedd yn destun ymgynghoriad.

Siaradodd yr Arweinydd o blaid y cynnig gwreiddiol ac er bod y rhan fwyaf o berchnogion yn erbyn y cynigion, nododd fod y rhan fwyaf o'r cyhoedd o'u blaid nhw gan yr ystyrir bod yr eiddo gwag yn difetha cymunedau. Nododd yr Arweinydd y byddai gan berchnogion ddwy flynedd i adnewyddu neu werthu'r eiddo cyn y cynnydd sylweddol.

Siaradodd yr Arweinydd am y Grant Eiddo Gwag a oedd wedi bod yn llwyddiannus a nododd y byddai rhaglen Cymru gyfan ar gyfer eiddo gwag wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru ar gael yn y Flwyddyn Newydd.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:
1. Nodi adborth yr ymgynghoriad fel sydd wedi'i atodi yn Atodiad 1 yr adroddiad;
2. Ar ôl trafod adborth yr ymgynghoriad, bwrw ymlaen â chyflwyno premiwm fel sydd wedi'i nodi yn y cynnig gwreiddiol;
3. Yn unol â'r uchod, argymell y ffordd arfaethedig ymlaen i'r Cyngor Llawn; ac
4. Yn amodol ar yr uchod, awdurdodi'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol i roi'r trefniadau gweithredu angenrheidiol ar waith.

**95 Cymorth i Ffoaduriaid, Dinasyddion Wcráin a Cheiswyr Lloches yn Rhondda Cynon Taf**

Rhoddodd Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned y newyddion diweddaraf i'r Cabinet am y cymorth y mae'r Cyngor yn ei ddarparu i ffoaduriaid, dinasyddion Wcráin a cheiswyr lloches yn Rhondda Cynon Taf, ac amlinellodd y gwaith sylweddol y mae'r Cyngor yn ei wneud ar y cyd â sefydliadau partner i ymateb yn gadarnhaol ac mor effeithiol â phosibl wrth ymdrin â'r holl gynlluniau ailsefydlu.

Cafodd Aelodau wybod bod dros 320 o ffoaduriaid, dinasyddion Wcráin a cheiswyr lloches wedi cael cymorth i ddod o hyd i lety yn RhCT hyd yn hyn, ac mae unigolion newydd yn cyrraedd bob wythnos o dan y cynlluniau amrywiol sydd wedi'u rhestru yn yr adroddiad. O ganlyniad i Gynllun Gwasgaru Ceiswyr Lloches y DU, roedd disgwyl i'r niferoedd gynyddu'n sylweddol dros y 12 mis nesaf.

Nododd y Cyfarwyddwr fod nifer o'r unigolion sy'n cyrraedd wedi cael cymorth i ddod o hyd i swydd, addysg, gwasanaethau iechyd a thai cynaliadwy trwy waith amlddisgyblaethol ystod eang o adrannau'r Cyngor a thrwy gymorth partneriaid allanol, gan gynnwys y bwrdd iechyd lleol.

Manteisiodd yr Arweinydd ar y cyfle i ddiolch i staff am fynd yr ail filltir er gwaethaf yr amserlenni heriol.

Adleisiodd y Dirprwy Arweinydd sylwadau'r Arweinydd gan ddiolch yn fawr i'r carfanau am eu gwaith sylweddol. Nododd y Dirprwy Arweinydd ei bod yn galonogol gweld y croeso a'r cymorth y mae staff RhCT a phartneriaid yn eu rhoi. Siaradodd am unigolyn a oedd yn rhan o gynllun ym Mharc Coffa Ynysangharad. Roedd y Dirprwy Arweinydd yn falch o gael gwybod bod yr unigolyn wedi cael croeso cynnes gan y garfan a bod yr unigolyn wedi ennill gwobr. Roedd hefyd yn falch o nodi bod Cyngor RhCT yn cyfrannu at sicrhau bod Cymru yn Genedl Noddfa.

Adleisiodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd a Gwasanaethau Corfforaethol y sylwadau blaenorol ac roedd yn falch o nodi ymrwymiad hirsefydlog y Cyngor i helpu'r rheiny nad oedd modd iddyn nhw aros yn ddiogel yn eu mamwlad.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:
1. Nodi'r nifer cynyddol o ffoaduriaid, dinasyddion Wcráin a cheiswyr lloches sy'n cael eu hailsefydlu yn RhCT a'r galw am dai, cymorth ac arian yn sgil hyn; a
2. Nodi'r camau gweithredu sylweddol y mae'r Cyngor, ein partneriaid a'n rhanddeiliaid yn eu cymryd i gefnogi a chroesawu pobl sy'n cael eu hailsefydlu yn RhCT.

**96 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad**

**PENDERFYNWYD:** “Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 12 ac 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.”

**97 Adolygiad o Strwythur Uwch Arweinwyr y Cyngor**

Yn dilyn trafod adroddiad y Prif Weithredwr, sy'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972 (fel y'i diwygiwyd), sef gwybodaeth ynglŷn â materion ariannol unigolyn penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal yr wybodaeth honno), cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad a **PHENDERFYNWYD:**
1. Bod y strwythurau cyfarwyddiaeth diwygiedig a ddangosir yn Atodiadau 2(i), 2(ii) a 2(iii) yr adroddiad yn cael eu gweithredu o 19 Ionawr 2023 ac yn Atodiad 3(i) o 1 Medi 2023, yn ddarostyngedig i'r broses ymgynghori angenrheidiol â staff; 2. Nodi y byddai gweithredu'r strwythurau diwygiedig yn rhoi gostyngiad amcangyfrifedig o £78,000 mewn costau rheoli blynyddol ar lefel Uwch Reolwyr (sy'n cynnwys argostau);
3. Nodi, yn rhan o'r rhaglen arbedion effeithlonrwydd barhaus, ac wedyn yn ddarostyngedig i unrhyw gymeradwyaeth ofynnol gan Bwyllgor Penodiadau'r Cyngor, y byddai'n arwain at ddileu'r swyddi canlynol o strwythur y Cyngor, yn unol â'r dyddiadau diwygio strwythurol uchod ym mharagraff 2.1 yr adroddiad i) Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant (gradd Cyfarwyddwr Cyfadran); ii) Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol (Cyfarwyddwr Lefel 1). iii) Cyfarwyddwr Gwasanaethau

Rheng Flaen (Cyfarwyddwr Lefel 1). iv) Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Rheng Flaen (Lefel 2).

4. Nodi y byddai'r Cabinet, yn sgil y cynnig yn 2.1, yn awdurdodi: a) diwygio swydd Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu (Cyfarwyddwr Lefel 2) i Gyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu (Cyfarwyddwr Lefel 1); b) diwygio swydd Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned (Cyfarwyddwr Lefel 2) i Gyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned (Cyfarwyddwr Lefel 1); c) diwygio swydd Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Cyfreithiol (Cyfarwyddwr Lefel 2) i Gyfarwyddwr – Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (Cyfarwyddwr Lefel 1); ch) creu swydd Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran – Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Rheng Flaen (gradd Cyfarwyddwr Cyfadran); d) creu swydd Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Cymdeithasol (Cyfarwyddwr Lefel 1); dd) creu swydd Cyfarwyddwr – Priffyrdd, Gofal y Strydoedd a Gwasanaethau Trafnidiaeth (Cyfarwyddwr Lefel 2); e) newid teitl swydd yn unig o Bennaeth Diogelu a Safonau (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1) i Bennaeth Gwasanaeth – Partneriaethau (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1).

5. Awdurdodi'r Prif Weithredwr, ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol, i gychwyn y broses ymgynghori â staff yn unol â Pholisi Rheoli Newid cytunedig y Cyngor ac yna rhoi'r cynigion ar waith;

6. Yn amodol ar gwblhau'r broses ymgynghori y soniwyd amdani ym mhwynt 2.5 yr adroddiad, yna lle bo angen, cyfeirio'r mater o'r telerau a'r amodau a chydnabyddiaeth o'r swyddi sydd wedi'u cynnwys yn strwythur arfaethedig diwygiedig y gyfarwyddiaeth, sydd wedi'i nodi yn Atodiadau 2(i) i 2(iii) ac Atodiad 3(i) yr adroddiad at y Pwyllgor Penodiadau a/neu'r Cyngor llawn fel y bo'n briodol;

7. Nodi y byddai angen newidiadau ôl-ddilynol i Gyfansoddiad y Cyngor o ran dileu a chreu swyddi Prif Swyddogion a strwythur y gyfarwyddiaeth, sydd wedi'i nodi yn Atodiadau 2(i) i 2(iii) ac Atodiad 3(i) yr adroddiad at y Pwyllgor Penodiadau a/neu'r Cyngor llawn fel y bo'n briodol; a

8. Nodi y byddai angen newidiadau ôl-ddilynol i Gyfansoddiad y Cyngor o ran dileu a chreu swyddi Prif Swyddogion.

***Nodwch*** *- Gadawodd y Prif Swyddogion canlynol y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar yr eitem:*
** Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol*
** Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant*
** Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol*
** Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned*
** Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu*
** Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu*

**Daeth y cyfarfod i ben am 1.30 pm**

**Cllr A Morgan**
**Cadeirydd.**